

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 8 Gorffennaf 2021 am 18.30

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Y Cynghorydd Jên Morris

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Jên Morris.

2. Ymddiheuriadau gan Cyng. Lowri Evans, Alun Thomas a Kevin Williams.

3. Angela Jones a Catrin Glyn, Parc Cenedlaethol Eryri – Strategaeth Parcio a Thrafnidiaeth

Penderfynwyd gwahodd Angela a Catrin i'r cyfarfod yn dilyn y webinarau diweddar. Cyflwynodd Angela a Catrin eu hunain i'r aelodau, ac yno cafwyd cyflwyniad ar y strategaeth, a chawsant y cyfle i ofyn cwestiynau. Roedd y sesiwn yn hynod o ddiddorol ac yn ddefnyddiol iawn, a diolchwyd i'r ddwy am fynychu.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2021 ac y cyfarfod byr a gynhaliwyd ar y 29 Mehefin, 2021.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

Tai'n Lon – Nodwyd Cyng. Geraint Williams fod gan y trigolion lleol pryderon ynglŷn a'r ochr isaf. Penderfynwyd y bydd y Cynghorydd yn danfon lluniau o'r safle, a'i danfon ymlaen at y Clerc. Y Clerc i ddanfôn ein pryderon a'r lluniau ymlaen at YGC.

Paragleidio ar Moel Wnion – Dim diweddariad ar y cytundeb. Nodwyd fod hyfforddiant yn gael ei gynnal ar y Foel, a fod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn edrych i fewn i'r mater.

Prosiect i Bartneriaeth Ogwen – Cyng. Geraint Hughes i holi Meleri Davies yn y cyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli Partneriaeth Ogwen.

Twll yn y ffordd ger y Wern – Nodwyd Cyng. Dafydd Meurig ei fod wedi cysylltu â Cyngor Gwynedd am y mater ac eu bod nhw mewn cyswllt a'r tirfeddianwr. Cyng. Dafydd Meurig i gael diweddariad ar y mater.

Cysylltiad Fibreoptig – Nodwyd y Clerc fod y Cyngor wedi derbyn ebost am y Gronfa Band Eang Lleol, ac efallai bod bosib gwneud cais drwy'r cynllun hwn. Gyda'r cyllid hwn, gall awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol ddarparu band eang arloesol i gymunedau mewn rhannau o Gymru nad oes ganddynt fynediad ar hyn o bryd at gyflymder band eang 30Mbps ac nad ydynt yn rhan o'r cynllun presennol gydag Openreach. Y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i holi os yw'r cynllun 'rollout' wedi ei cynllunio ar gyfer yr ardal yma yn barod, y Clerc yn disgwyl ymateb.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Cae Gwigin – Nodwyd Cyng. Dafydd Meurig ei fod wedi bod mewn cyswllt hefo Llifon Foulkes yng Ngyngor Gwynedd, ac mae wedi cadarnhau ei fod am rhoid arwyddion 'dim gemau pel' a 'dim beics' ar y safle.

Cais am drwydded – Fferm Talybont Uchaf – Nodwyd fod yr adran trwyddedu wedi derbyn nifer o gwynion, ac fod y cais wedi gael ei rhoid ymlaen i'r Pwyllgor Trwyddedu. Heb dderbyn cadarnhad o ddyddiad y pwyllgor eto.

Llyn Bryn – Dau bwlch wedi disgyn ger Llyn Bryn, y Clerc wedi hysbysu â Stad Penrhyn.

Beiciau Modur – Nodwyd y Cyng. Kevin Williams bod beiciau modur wedi bod yn mynd ar y mynydd drwy giat Chwarel Bryn, a fod y giat yn gael ei adael ar agor. Mae'r beiciau yn dod o ardal Talybont. Y Clerc wedi derbyn ymateb gan Dewi Roberts, Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn nodi eu bod yn gweithio gyda contractwr lleol dros y wythnosau nesaf i godi giat mochyn yn yr ardal yma er mwyn atal (mewn gobaith) y beiciau modur rhag mynd ar y mynydd.

6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Tir a Choed	Torri fynwent Llan	£240.00
-------------	--------------------	---------

7. Cae chwarae Tal y Bont

Gardd Cymunedol – Cadarnhawyd y bydd Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd yn cysylltu a ni pryd fydd y gwaith yn barod i gychwyn.

Cae Pel-droed – Y Clerc i drefnu cyfarfod rhwng Alex Tedford o Broc Design, Cyngor. Evan Jones ac Alun Thomas a'r Clerc. Y Clerc wedi cysylltu a Cyngor Gwynedd i holi am bris torri'r gwair, ond cadarnhawyd eu bod ddim yn gallu cynnig y gwasanaeth ar hyn o bryd oherwydd llwyth gwaith. Nodwyd fod y contractwr preifat wedi cwblhau'r gwaith torri a chodi, a wedi gwneud gwaith gwych. Y Clerc i ofyn os oes modd torri'r cae eto diwedd Gorffennaf, diwedd Awst a diwedd Medi. Nodwyd fod y ffermwr wedi adnewyddu'r ffens.

8. Y Mynydd

Nodwyd y Cyng. Wyn Bowen Harris ei bod heb dderbyn diweddariad ar materion y mynydd. Y Clerc wedi holi Gethin Evans, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond nid yw wedi derbyn ymateb chwaith. Y Clerc i ysgrifennu eto i ofyn am ddiweddariad cyn diwedd Awst, gan gynnwys aelodau'r Panel Mynydd. Y Clerc i holi'r Parc Cenedlaethol os oes grantiau ar gael i godi waliau'r corlannau.

9. Datblygiad Cae Rhosydd

Nodwyd fod y Clerc a'r Cadeirydd wedi cwblhau y ffurflen cwyn gyda'r Ombwdsman, fodd bynnag derbyniwyd ymateb i gadarnhau nid oedd bosib i gyrff wneud cwynion drwy'r ombwdsman, dim ond unigolion. Er fod y Cyngor Cymuned wedi ysgrifennu at y Prif Weithredwr, eglurwyd y Cyng. Dafydd Meurig efallai fod y cwyn heb gael ei ystyried fel cwyn swyddogol, oherwydd fod heb fynd drwy'r drefn perthnasol. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn cwblhau cwyn swyddogol ar ran y Cyngor. Nodwyd fod y Cyng. Geraint Hughes wedi drafftio datganiad i'r wasg, a cylchredwyd y drafft i'r aelodau. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn danfon y datganiad allan i'r wasg unwaith/os y bydd llefarydd ar ran y cyngor wedi'i gadarnhau. Cadarnhawyd y Cyng. Geraint Hughes ei fod wedi gwneud cais Rhyddid Gwybodaeth am ceisiaudau cynllunio tebyg.

10. Gohebiaeth

Cyflwynwyd: Cyngor Tref Nefyn – Creu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn a Polisi Iaith - penderfynwyd y bydd y Cyng. Megan Tomos yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned os fydd cyfarfod o'r fath yn gael ei gynnal.

Cyflwynwyd – Carnifal Bethesda – Cais am cefnogaeth ariannol – Y Clerc i ymateb i egluro mi fydd y Cyngor yn ystyried y cais am rhodd ym mis Ionawr 2022.

Cyflwynwyd – Cyngor Cymuned Llandygai – Diffyg ymateb a Chyfathrebu Cyngor Gwynedd – Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi Cyngor Cymuned Llandygai ac yn cytuno ein bod hefo pryderon ynglŷn a diffyg ymateb a gweithredu, yn enwedig gyda'r adran priffyrdd a llwybrau.

Cyflwynwyd – Datblygiad telathrebu arfaethedig Talybont – Penderfynwyd cefnogi y datblygiad hwn.

11. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Dyffryn Ogwen Di-blastig – Nodwyd y Cyng. Megan Tomos ei bod wedi mynychu'r cyfarfod uchod ar ran y Cyngor. Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi'r ymgyrch di-blastig, Cyng. Megan Tomos i lunio ymateb a'r Clerc i ddanfon ymlaen.

12. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0078/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0099/21/CC

Ogwen Bank Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

Penderfyniad: Ar y gweill.

NP3/21/28D

Bronydd Uchaf, Llanllechid

Codi adeilad amaethyddol yn cynnwys storfa slyri tan ddaearol

Penderfyniad: Cais wedi'i dynnu'n ôl

C21/0333/21/DT

Cae Mawr, Talybont

Cais ar gyfer ymestyn modurdy ddomestig i greu ystafell gardd

Penderfyniad: Caniatawyd gydag amodau.

NP3/21/T76B

Llwyn Penddu Isaf, Llanllechid, LL57 3LL

Estyniad unllawr ar yr ochr

Penderfyniad: Caniatawyd gydag amodau.

C21/0455/21/RA

Tir Gyferbyn Maes Bleddyn, Bethesda

Rhyddhau amod rhif 13 (Cynllun Tai Fforddiadwy) a 23 (Datganid Dull Ymlusgiaid) ynghyd a rhannol rhyddhau amod 17 (Datganiad Dull Adeiladwaith), 22 (Cynllun Atal Llygredd) ac amod 24 (Cynllun Gwelliannau Bioamrywiaeth).

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0475/21/AC

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Newid amod rhif 2 (diwygiadau i'r cynllun, edrychiadau'r tai a'r system ddraenio) ynghyd a newid amod 28 (defnyddio ffensio math heras yn hytrach na ffensio atal dyfrgwn) o ganiatâd rhif C19/0950/21/LL.

Penderfyniad: ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:**NP3/21/46E**

2 Tai'r Cae, Carneddi

Estyniad i adeilad amaethyddol

Penderfyniad: Dim gwrthweynebiad

12. Materion Brys

Ymddiswyddiad - Nodwyd fod Cyng. Margaret Fernley wedi ymddiswyddo ar ôl blynyddoedd o wasanaeth i'r Cyngor Cymuned. Diolchodd yr aelodau i'r Cynghorydd am ei holl waith yn ystod ei hamser gyda'r Cyngor, ac y bydd yn golled aruthrol i'r gymuned. Y Clerc i ddanfôn llythyr o ddiolch iddi hi am ei holl wasanaeth fel cynghorydd. Y Clerc i hysbysu'r adran etholiadau yn Nghyngor Gwynedd.